GLYNN VIVIAN

# Trosolwg o'r Oriel

## Hydref 2016 - Mawrth 2018

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government
PLUS TATE
AMGUEDDFA ACHREDEDIG
ACCREDITED MUSEUM
FRIENDS OF THE GLYNN VIVIAN
Cyngor Abertawe
Swansea Council

Mae'r Oriel yn fan celf bywiog ac ysbrydoledig am ddim i bawb sydd yn darparu lle ar gyfer arddangosfeydd celf hanesyddol, fodern a chyfoes, sgyrsiau, darlithoedd a chynadleddau, cerddoriaeth fyw, perfformiadau a digwyddiadau yng nghalon ardal artistig brysur Abertawe.

Ailagorodd ym mis Hydref 2016 yn dilyn prosiect adfywio mawr i drawsnewid a gwarchod adeilad rhestredig Gradd II* gwreiddiol yr oriel sy'n dyddio o 1911. Mae'r adeilad bellach yn cynnig profiad i ymwelwyr sy'n hygyrch, yn groesawgar ac wedi'i hadfywio ar gyfer y 21ain ganrif.

Mae orielau newydd wedi cael eu hychwanegu, yn ogystal â stiwdios cadwraeth arbenigol, storfa gasgliadau, theatr ddarlithio benodol ag 80 o seddi, llyfrgell ac archifdy, caffi newydd a siop.

Mae Oriel Gelf Glynn Vivian (sefydlwyd ym 1911) wedi datblygu casgliad sylweddol sy'n cynnwys sbectrwm eang o'r celfyddydau gweledol o hen gewri i artistiaid cyfoes, gyda chasgliad rhyngwladol o borslen a tsieni Abertawe.

Mae'r oriel hefyd yn cynnal arddangosfeydd teithiol cenedlaethol a rhyngwladol o waith artistiaid cyfoes pwysig yn ogystal â sioeau hanes celf. Mae hefyd yn rhoi llwyfan i artistiaid yng Nghymru i gyflwyno eu gwaith mewn cyd-destun lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae'r tîm dysgu arobryn yn helpu i ddatblygu awyrgylch cyfeillgar a chefnogol lle gall pobl o bob oedran ddatblygu eu dealltwriaeth o'r byd celf, yn ogystal â rhaglen ddehongli gymunedol gyffrous yn llawn sgyrsiau, darlithoedd, teithiau a digwyddiadau.

Mae Oriel Gelf Glynn Vivian yn rhan o Ddinas a Sir Abertawe ac fe'i cefnogir trwy grant gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

Mae Oriel Gelf Glynn Vivian yn bartner i’r Tate ac mae'n cyfnewid rhaglenni, syniadau a sgiliau â rhwydwaith Plus Tate o sefydliadau celfyddydau gweledol ar draws y DU.

Gorymdaith agoriadol Oriel Gelf Glynn Vivian, gweithio gyda 10 artist a grwpiau cymunedol yr oriel



# Ymchwilio i gymynrodd Richard Glynn Vivian a'i harchwilio'n llwyr am y tro cyntaf






64,891 o ymwelwyr ag Oriel Gelf newydd Glynn Vivian, Hydref 2016 – Mawrth 2018



21 o arddangosfeydd newydd ac arddangosfeydd o'r casgliad




15 o arddangosfeydd gwreiddiol ac
arddangosfeydd o’r casgliad

# Gwaith dros 70 o artistiaid wedi'i arddangos



gan gynnwys gwaith gan 9 artist o Gymru



175 o artistiaid lleol o Abertawe wedi arddangos eu gwaith yn Abertawe Agored 2017, sef cyfanswm o 254 o gelfweithiau'n cael eu harddangos



14 o baentiadau olew wedi derbyn gwaith cadwraeth yn ein stiwdio cadwraeth paentiadau bwrpasol newydd sbon o'r radd flaenaf



567 o ymwelwyr â'r llyfrgell a'r archifdy newydd

176 o ymholiadau ymchwil





170 o ymweliadau ysgol gyda

4,257 o ddisgyblion

27 o ymweliadau gan Ysgolion Cymunedau'n Gyntaf Abertawe




365 o weithdai a digwyddiadau i blant

10,701 o gyfranogwyr

# 13 o bobl ifanc sy'n cael eu haddysgu gartref a NEET (rhwng 10 ac 16 oed) wedi ennill achrediad lefel efydd Arts Award




240 o ddigwyddiadau a gweithgareddau i oedolion,
gan gynnwys sgyrsiau, symposia, teithiau tywys, gweithdai,
dosbarthiadau a cherddoriaeth fyw, gyda
4,932 o gyfranogwyr i gyd



12 o raglenni a dargedir newydd wedi'u creu i gynyddu ymgysylltiad â chynulleidfaoedd, gan gynnwys y blynyddoedd cynnar, ffilmiau, y Glynn Vivian gyda'r Hwyr, gweithdai cadwraeth a theithiau tywys o'r casgliad.

# Partneriaethau ar draws ein rhaglenni, gan gynnwys

- Y Ganolfan Gymunedol Affricanaidd
- Art Angel
- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Y Gronfa Gelf
- Bwrdeistref Scarborough
- Yr Amgueddfa Brydeinig
- Crescent Arts
- Diwrnodau Dawns
- Oriel Elysium
- Engage Cymru
- Prifysgol Falmouth
- Ffotogallery
- Comisiwn Coedwigaeth Lloegr
- Cyfeillion y Glynn Vivian
- Hayward Touring
- Cronfa Dreftadaeth y Loteri
- Oriel Ikon
- Oriel Mission
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Amgueddfa Genedlaethol Cymru
- Coed Penllergaer
- Plus Tate
- RNIB
- Cyngor Rhanbarthol Ryedale
- Cyngor Ymchwil Gwyddorau Cymdeithasol a Dyniaethau Canada
- Canolfan Southbank
- Swan Gardens
- Gwasanaeth Dydd Abertawe
- Foyer Abertawe
- Amgueddfa Abertawe
- Prifysgol Abertawe
- Y Casgliad Brenhinol
- Prifysgol Ottawa
- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
- Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg



47 o deithiau tywys o'r oriel gyda 946 o ymwelwyr






# 32 o gaffaeliadau newydd i'n casgliad



# 3 benthyciad o'r casgliad

Paul Nash, *Landscape of the Bagley Woods* – benthycwyd i Tate Britain (26 Hydref 2016 - 5 Mawrth 2017)

Stanley Spencer, *Marriage at Cana* – benthycwyd i The Royal West of England Academy (10 Rhagfyr 2016 - 19 Marwth 2017)

Wyndham Lewis, *The Convalescent* – benthycwyd i'r Imperial War Museum (Gogledd) (23 Mehefin 2017 - 1 Ionawr 2018)



345 o ymwelwyr â storfeydd newydd y casgliad

139,763 o bobl yn defnyddio'r wefan

4,055 o bobl wedi hoffi ein tudalen ar Facebook


52,021 o ddilynwyr ar Twitter

1,358 o ddilynwyr ar Instagram



27 o gyhoeddiadau newydd wedi'u creu gan gynnwys catalogau arddangosfeydd a llyfrau gwybodaeth am yr oriel






Oriel Gelf Glynn Vivian

Heol Alexandra

Abertawe SA1 5DZ

01792 516900

orielglynnvivian.org

Ar agor o ddydd Mawrth i ddydd Sul, 10:00-17:00

Ar gau ddydd Llun heblaw am Wyliau’r Banc

Mynediad am ddim

twitter.com @GlynnVivian & @OG_GlynnVivian

facebook.com GlynnVivian

instagram @glynnvivian